


ADOLYGIAD O BROSIECT DYFFRYN DYFODOL


# Trochi Fy Nhraed

GAN IRINA RICHARDS






S'MAE IRINA!
IWAN YDW I, A DYMA KATIE.
HOFFET TI FYND AR ANTUR?
PAM LAI!
FFIWSAR
Irina'24


NEIDIA MEWN!
FFIWSAR
FFIWSAR YDY ENW EIN CWMNI NI, OHERWYDD RYDAN NI'N RHYW FATH O...
FFIWSIO POBL GREADIGOL GYDA'I GILYDD!
Irina '24


CŴL, FELLY I LE AWN NI?
AWN NI ATI I FWRW GOLWG AR DDYFFRYN DYFODOL.
sblash
DYMA EIN PROSIECT YMCHWIL A DATBLYGU.
ROEDD AR WAITH GENNYM NI, YN NYFFRYN CONWY A CHEFN GWLAD CYMRU, RHWNG 2021 A 2024.
Irina '24


EIN NOD OEDD DWYN ARTISTIAID, PARTNERIAID A CHYMUNEDAU YNGHYD –
GAN FANTEISIO AR GREADIGRWYDD FEL SBARDUN I GREU NEWID!
CREADIGRWYDD
Irina'24
MAE HYNNY'N SWNIO'N UCHELGEISIOL, WAW.
A DWEUD Y GWIR, ROEDD GENNYM NI AMBELL I GWESTIWN AC AMHEUAETH CYN BWRW IDDI GYDA'R PROSIECT.


MAE IWAN A MINNAU'N WEITHWYR LLAWRYDD PROFIADOL, OND DOEDDEN NI ERIOED WEDI RHOI CYNNIG AR RYWBETH TEBYG I HYN O'R BLAEN.


AC ROEDDWN I'N TYBIO, EFALLAI Y DYLEN NI FOD WEDI RHOI'R ARIAN I'R CYMUNEDAU A GADAEL IDDYN NHW BENDERFYNU SUT I'W WARIO?
Irina '24

ROEDDEN NI'N FFODUS IAWN O DDERBYN CYMORTH GAN SAWL MUDIAD PARTNER!

ROEDD RHAI OHONYN NHW'N RHAN O'R PROSIECT O'R CYCHWYN CYNTAF.


BU I ERAILL FEITHRIN CYSYLLTIADAU GYDA NI WRTH I'R PROSIECT FYND RHAGDDI.








FE WNAETHON NI BENDERFYNU GWNEUD PETHAU'N DRA GWAHANOL O'R DECHRAU UN!
DYMA EIN HEGWYDDORION.
Egwyddorion:
- Mae'n berffaith iawn os nad ydych chi'n gwybod yr holl atebion neu'r holl fanylion i gychwyn
- Byddwch yn ymatebol ac yn ystwyth
- Byddwch yn ymwybodol o'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau
- Byddwch yn ymwybodol o'r rhai sydd wedi'u heithrio, ac ewch ati i leihau'r rhwystrau
Irina'24


Llandudno
Colwyn Bay
Conwy
FELLY PAM WNAETHOCH CHI DDEWIS DYFFRYN CONWY?
WEL, MAE'N ARDAL HOLLBWYSIG SY'N FERW O BRYSURDEB!
MAE'R DŴR YN YMGASGLU YMA
Lower Conwy
ARDAL EWROPEAIDD O DDIDDORDEB GWYDDONOL
Llanrwst
LLIFOGYDD
Bettws-y-Coed
NEWID HINSAWDD
CYMUNEDAU'N LLIFO AR Y CYD Â'R AFON
Upper Conwy
Penmachno
COEDWIGAETH COETIR
DEFNYDD CYNALIADWY O ADNODDAU NATURIOL
Irina'24



UNWAITH INNI GADARNHAU GWEITHGAREDDAU AC ATI PRESENNOL YR ARDAL...
FE WNAETHON NI DDWYN I STYRIAETH Y DIGWYDDIADAU Y BYDDAI'N ENNYN DIDDORDEB Y CYMUNEDAU.
FELLY WNAETHON NI FEDDWL AM Y SYNIAD O...
SINEMA BEICIO!!
"SINEMA BEICIO?"
Irina'24

BU INNI DREULIO AMSER YN CANFOD FAINT O BOBL OEDD Â DIDDORDEB.




POPCORN
TÊ
RYDW I WRTH FY MODD GYDA'R FFILM!
MAE TREULIO AMSER GYDA'N GILYDD YN WELL NA'R FFILM HYD YN OED!
TROEDD Y DIGWYDDIAD EI HUN YN WYCH!!
Irina'24


WEDI HYNNY, AETHOM NI ATI I GYHOEDDI GALWAD AM BOBL I GYMRYD RHAN YN Y PROSIECT.
FE WNAETHOM NI GYNNIG Y CYFLE I "BOBL GREADIGOL" YN FWRIADOL YN HYTRACH NAC "ARTISTIAID"...
ER MWYN ANNOG SGYRSIAU GAN BOBL O BOB LLIW A LLUN.
MAE HYNNY'N CYD-FYND YN EFFEITHIOL GYDA'CH EGWYDDOR O LEIHAU RHWYSTRAU!
Irina '24


ROEDDEM NI'N AWYDDUS I GYNNIG RHYDDID I BOBL GREADIGOL ALLU BWRW IDDI AR EU LIWT EU HUNAIN, YN HYTRACH NA RHOI CYFARWYDDIADAU IDDYN NHW.
BU I HYNNY ANNOG YMGYSYLLTU YSTYRLON A MEITHRIN YMDDIRIEDAETH.
HOFFET TI WELD Y GWEITHGAREDDAU?
66 SGWRS GREADIGOL
28 SYNIAD CREADIGOL WEDI'U CYFLWYNO
12 WEDI'U RHOI AR Y RHESTR FER
6 WEDI'U DEWIS
OS GWELWCH YN DDA!
MAP
Irina'24


ALISON YD̂W I, A DYMA TY DEĈHRAU – Y TY AR Y CYCHWYN!
MAE CROESO ICHI GERDDED O AMGYLCH LLYN CONWY, CHWILOTA A CHYMRYD HOE FACH!
MAE YNA HEFYD WRTHRYCHAU DIFYR YN Y BLWCH SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R GORFFENNOL NEU'R DYFODOL.
Irina'24


HELO, LINDSEY YDW I – CROESO I HELFA DRYSOR Y GORFFENNOL, Y PRESENNOL A'R DYFODOL!
RYDW I WEDI BOD YN SIARAD GYDA THRIGOLION DOLGARROG I GANFOD Y MANNAU HYNNY SY'N GWNEUD Y PENTREF YN LE MOR ARBENNIG.
RYDYM WEDI LLUNIO CARDIAU SY'N DANGOS GORFFENNOL A PHRESENNOL Y MANNAU HYN.
AT HYNNY, MAE GENNYM NI "DDYWEDWR Y DYFODOL" OS YDYCH CHI'N DDIGON DEWR I FENTRO!
OHOHO!
Dywedwr y Dyfodol
Irina'24


KRISTIN YDW I.
FE WNES I ADFER SIOP WAG YM MHENMACHNO ER MWYN AGOR ORIEL GYMUNEDOL ...
ORIEL MACHNO
LLE GALLAI POBL DDOD YNGHYD A CHYMRYD RHAN YN Y CELFYDDYDAU.
WAW, DEFNYDD GWYCH O WAGLE CYHOEDDUS!
Irina '24


HELO! GILL YDW I.
FE WNES I GASGLU GRŴP O WIRFODDOLWYR Y NGHYD I DROEDIO GLANNAU AFONYDD ROE A HENRYD...
A CHAEL GWARED AR FFROMLYS CHWARENNOG.
MAE'N DDENIADOL OND MAE'N DIFRODI GLANNAU AFON....
AC YN RHWYSTRO PLANHIGION ERAILL RHAG TYFU.
Ffromlys Chwarennog
Gwirfoddolwr
TROEDD CYMRYD RHAN YN HYN YN GWNEUD IMI EIMLO'N DDEFNYDDIOL DROS BEN!
Irina '24



EMRYS YDW I.
ROEDDWN I'N GWEITHIO GYDA'R CYMUNEDAU FFERMIO YN NYFFRYN CONWY UCHAF.
Irina'24
MAE ADRODD STRAEON YN ANNATOD, FELLY ROEDDEM YN BWRW GOLWG AR STRAEON Y DYFODOL -
"STRAEON YFORY?"



HELO, JACKIE YDW I, A DYMA ŴYL GARROG!
NID FFAIR BENTREF MOHONI'N UNIG.
Irina'24
FE WNES I SEFYDLU GŴYL GYMUNEDOL ER MWYN DWYN POBL YNGHYD ...
A DANGOS EIN BOD NI WRTH EIN BODD GYDAG EIN PENTREF!
CARU DOLGARROG



YCHYDIG ORIAU'N DDIWEDDARACH...
MYN DIAN I! MAE HI WEDI BOD YN DDIWRNOD GWERTH CHWEIL.
RYDW I WEDI YMLÂDD ERBYN HYN!
WEDI BLINO? DIM HI YDY'R UN SY'N RHWYFO ...
FFIWSAR
FELLY BETH ARALL WNAETHOCH CHI EI WNEUD YN NYFFRYN DYFODOL?
RYDW I'N FALCH DY FOD TI WEDI GOFYN!
Irina '24



DE LLANTY
SIOE AA
FE WNAETHON NI GYNNAL "YMYRIADAU BYR" YN OGYSTAL.
ROEDDEM NI'N CYNNIG £200 AM SYNIADAU I WELLA CYMUNEDAU.
£200 AM EICH SYNIAD!
WW, MAE'N BOSIBL FOD GEN I SYNIAD DA.
A FI!
ALLA I FENTRO ROEDDET TI WRTH DY FODD YN GAFAEL YR ARWYDD HWNNW!
Irina '24



FE WNAETHON NI DDERBYN SYNIADAU ARBENNIG...
"PANED A SGWRS" I RIENI A GOFALWYR PLANT NIWROWAHANOL
SESIWN GREFFT YN LLYFRGELL LLANRWST
CYLLID PELLACH I GEFNOGI ANABLEDDAU MEWN MANNAU GWLEDIG
WELA' I. ROEDD Y FFORMAT HWN YN WEDDOL LWYDDIANNUS FELLY!
Irina'24



sblash
DEWCH I NI GYMRYD HOE FACH ...
A MWYNHAU TAMAID BACH I FWYTA!
Irina'24



FELLY, DYMA NI ...
FEL ADOLYGYDD PROSIECT, BETH YDY DY FARN DI?
WEL, RYDW I –
CER AMDANI...
PAID AG YSTYRIED UNRHYW DDISGWYLIADAU A RHO DY FARN YN BLWMP AC YN BLAEN!
Irina '24


WEL, MAE'R PROSIECT YN EI GYFANRWYDD YN UN "LLAWR GWLAD" YN Y BÔN.
ROEDDWN I WRTH FY MODD YN GWELD SUT ROEDD CYMUNEDAU'N CYMRYD RHAN YN YSTOD POB CAM.



RYDYCH CHI WEDI BWRW IDDI I GYNNAL GWAITH YMCHWIL CREADIGOL SYLWEDDOL AR Y CYCHWYN!
MAE'N WYCH EICH BOD CHI WEDI DYSGU O'R SYNIADAU HYNNY NA WNAETH DDWYN FFRWYTH YN OGYSTAL.
Irina '24



ROEDDWN I HEFYD YN EDMYGU EICH DULL O WNEUD PETHAU'N WAHANOL I'R ARFER...
DIOLCH!
....AC FE WNAETHOCH CHI YMDRECHU I GYDWEITHIO GYDA PHOBL NA FYDDAI'N YSTYRIED EU HUNAIN YN "ARTISTIG"...
FEL NAD OEDD YNA NEB YN TEIMLO WEDI'U HEITHRIO O'R GWEITHGAREDDAU.
Irina'24


PA WEITHGAREDD CREADIGOL OEDDECH CHI'N GALLU UNIAETHU GYDAG O FWYAF?
O, ROEDDEN NHW *I GYD* YN ARBENNIG!
OND ROEDDWN I'N HOFF IAWN O HELFA DRYSOR LINDSEY.
GALLAF DDEFNYDDIO RHAI O'I GWEITHDREFNAU I GASGLU SYNIADAU YN FY NGWEITHDAI COMICS!
Irina'24


ROEDDWN I HEFYD WRTH FY MODD GYDA SYNIAD EMRYS O FOD YN "GYFAILL CREADIGOL" I'R BOBL ROEDD YN CYDWEITHIO GYDA NHW!
GELLIR CYNNAL Y GWEITHGAREDDAU MEWN LLEOLIADAU ERAILL HEFYD, GAN FOD MODD EU HADDASU I DDIWALLU ANGHENION Y GYMUNED DAN SYLW.
Irina'24


WYDDOCH CHI, WEITHIAU FE FYDDA I'N MEDDWL...
TYBED SUT FYDD Y DYFODOL I FY MHLANT.
A FYDD POBL YN DOD YN FWY ANGHYSYLLTIEDIG, YN BODOLI YN NIOGELWCH EU BYDOEDD ARTIFFISIAL...
TRA BOD BYD GO IAWN YN CHWALU O'U CWMPAS?
Irina'24


GOBEITHIO DDIM – CYN BELLED AG Y GALL POBL DDOD YNGHYD...
A CHYMRYD RHAN MEWN RHYWBETH A FYDDAI'N GWNEUD GWAHANIAETH ***GWIRIONEDDOL***.
HEB OS.
FE WNAETH DYFFRYN DYFODOL DDANGOS GWERTH CYMUNEDAU'N CYDWEITHIO AC ENNYN SGWRS GREADIGOL.
Irina'24


BETH BYNNAG, DIOLCH AM FY NHYWYS I DDYFFRYN DYFODOL.
RYDW I WEDI DYSGU PETH WMBRETH -
ER FY MOD I'N TEIMLO PRIN FY MOD I WEDI TROCHI BYSEDD FY NHRAED!
DIWEDD
Irina'24